# Taflen adnoddau Gwers 2

## Delweddaeth yn 'The Hunchback in the Park'

**Amcan Dysgu: Canolbwyntio ar sut mae'r bardd yn defnyddio delweddaeth drwy ddefnyddio cymariaethau a throsiadau yn y gerdd.**

Mae'r parc yn cael ei gyflwyno fel lle o hud dychmygol i'r bechgyn sy'n chwarae yno ac mae Thomas yn dangos hyn yn eglur yn y gerdd drwy ddefnyddio delweddaeth.

### Tasg:

1. Dewch o hyd i **dair cymhariaeth** (cymariaethau sy'n defnyddio 'fel' - 'like' neu 'as' yn y gerdd Saesneg hon) ac **o leiaf ddau drosiad** (lle mae un peth yn cael ei ddisgrifio fel petai'n rhywbeth arall) yn y gerdd.

| | |
|---|---|
| **Cymhariaeth 1** | |
| **Cymhariaeth 2** | |
| **Cymhariaeth 3** | |

| | |
|---|---|
| **Trosiad 1** | |
| **Trosiad 2** | |

2. Llenwch y tabl isod drwy ddod o hyd i **ddau** o'r trosiadau sy'n cyfleu ymdeimlad o'r parc fel byd ffantasi o safbwynt y bechgyn. Yna, trafodwch nhw.

| | Dyfyniad | Effaith |
|---|---|---|
| **Trosiad am y parc** | | |
| **Trosiad am y bechgyn** | | |

3. Edrychwch ar sut mae'r parc yn cael ei ddisgrifio ar y dechrau (llinellau 4-5):

   "From the opening of the garden lock
   That lets the trees and water enter"

   a diwedd (llinell 37) y gerdd

   "All night in the unmade park"

Pan oedd Thomas yn blentyn a phan oedd yn ysgrifennu, byddai'r parc yn cael ei gloi bob nos ond yma mae'r dewis o iaith yn gwneud iddi ymddangos fel petai'r parc ddim yn bodoli tan i bobl fynd i mewn iddo. Sut mae hyn yn ychwanegu at y syniad o'r parc fel byd ffantasi?

4. Caiff ffantasïau'r crwca ei hun eu disgrifio ym mhennill 6. Am beth mae'n breuddwydio a beth yw arwyddocâd y ddelweddaeth yma?

Made all day until bell time
A woman figure without fault
Straight as a young elm
Straight and tall from his crooked bones
That she might stand in the night
After the locks and chains

**Tanlinellwch/uwcholeuwch** unrhyw eiriau neu ymadroddion a allai ddangos beth yw breuddwydion y crwca, yn eich barn chi.